




Cymru

---



**Y**n hynod o amrywiol, mae tirlun Cymru'n gartref i ystod o fywyd gwyllt arbennig. Defnyddir llawer o'r tir ar gyfer amaethyddiaeth, yn bennaf ar gyfer cynhyrchu da byw ond gydag ardaloedd o ffermio llaeth a thir â yn y de a'r gorllewin, a'r gororau. Mae cyfran sylweddol yn cael ei ystyried yn ucheldir, ac mae'r ffridd, cynefin Cymreig nodweddiadol, yn ffurfio cylchfa ryngbarthol ar y llethrau isaf lle mae'r mynydd a'r rhostir yn newid i ffermdir wedi ei amgáu ar lethrau isaf y brynau.

Oherwydd cymeriad amrywiol systemau dŵr croyw a gwlyptiroedd Cymru fe ddylen nhw fod yn cynnal casgliad cyfoethog nodweddiadol o fywyd gwyllt brodorol. Fodd bynnag, o ganlyniad i reolaeth tir sy'n fwyfwy dwys mae gwlyptir wedi crebachu, wedi ei ddarnio ac wedi ei addasu cymaint fel nad yw llawer ohono bellach yn gweithredu'n effeithiol fel system o wlyptir naturiol. Erbyn hyn, felly, nid yw llawer o wlyptiroedd yn gallu cynnal y bywyd gwyllt yr oedden nhw'n ei gynnal yn y gorffennol.

Er bod cynefinoedd rhostir yr iseldir yn gorchuddio llai nag 1% o dirlun Cymru<sup>1</sup>, maen nhw'n gartref i lawer o rywogaethau Cymru sydd mewn perygl. Mae coedlannau hefyd yn gydran allweddol o amgylchedd Cymru, yn cynnwys coedlannau derw pwysig ar yr ucheldir. Gyda dros 2,700 cilometr o arfordir, mae Cymru'n berchen ar amgylchedd arfordirol a morol cyfoethog, sy'n cynnal poblogaethau o adar môr sy'n nythu ac adar dŵr sy'n gaeafu o bwys rhyngwladol, megis y 39,000 pâr o huganod sy'n nythu ar Ynys Gwales.



- ***O'r 25 rhywogaeth o löyn byw a aseswyd, mae nifer tebyg (13) wedi prinhau o ran amllder yng Nghymru o'i gymharu â'r rhai sydd wedi cynyddu.***
- ***Mae 57% o blanhigion blodeuol Cymru yn prinhau, tra bod 43% yn cynyddu – mae'r patrwm yn debyg yng ngweddill y DU. Mae patrwm y newid drwyddo draw yn debyg i'r hyn a welir yn Lloegr, gyda rhywogaethau ardaloedd agored, prin eu maetholynnau, basig neu asidig yn prinhau, a rhywogaethau ardaloedd cysgodol, llawn maetholynnau a niwtral yn cynyddu.***
- ***Gallwn asesu tueddiadau poblogaethau ar gyfer llai na hanner rhywogaethau o adar Cymru. O'r rhywogaethau o adar a aseswyd, mae ychydig mwy wedi cynyddu nag sydd wedi prinhau. Mae adar dŵr sy'n gaeafu yn gwneud yn arbennig o dda; fodd bynnag, mae llawer o rywogaethau ffermdir yn parhau i brinhau'n gyflym.***
- ***Rhwng 1970 ac 1990, crebachodd dosbarthiad Cymreig dwywaith y nifer o rywogaethau o adar o'u cymharu â rhywogaethau lle gwelwyd cynnydd yn eu dosbarthiad<sup>2</sup>.***


# Mesur sefyllfa byd natur Cymru

**Y**m mhrif adroddiad *Sefyllfa Byd Natur* ceir darlun o dynged bywyd gwyllt ledled y DU. Yma rydym yn canolbwyntio ar Gymru. Oherwydd diffyg data addas, nid oedd modd i ni gyflwyno tueddiadau mesurol ar gyfer mwy na thua 5% o rywogaethau'r DU, a phan edrychwn ar raddfa lai, mae'r broblem yn fwy fyth. O ganlyniad, er ein bod yn adrodd y data gorau sydd ar gael yma ar gyfer Cymru, mae'r darlun yn eithaf anghyflawn – yn y bôn nid oes gennym ddigon o wybodaeth i wneud asesiad cadarn a mesurol o sefyllfa byd natur Cymru.

Mewn sawl achos rydym yn amau bod tueddiadau ar lefel y DU yn gallu bod yr un fath yma yng Nghymru, ond nid yw hyn yn wir bob amser. Dylid bod yn ofalus wrth ddod i ganlyniadau ehangach ynglŷn â sefyllfa byd natur Cymru yn ôl y dystiolaeth a gyflwynir gennym yma. Hyd yn oed o fewn y grwpiau sy'n cael eu cynnwys, ni allwn ond adrodd ar sampl o rywogaethau nad-ar-hap, yn aml gyda bias tuag at y rhai sydd â dosbarthiad digon eang i'w nodi yn ystod gwaith monitro ar lefel y DU. Fel mewn mannau eraill yn y DU, un o'n negeseuon cryfaf yw bod arnom angen gwybod mwy am dynged byd natur yng Nghymru.

O ystyried y cyfyngiadau hyn byddwn yn amlygu'n gryno bwysigrwydd tri chynefin arbennig, yn ogystal ag ychydig o fesuriadau o newid ym mywyd gwyllt Cymru, yn hytrach na rhoi cynnig ar olwg hirfaith o fyd natur Cymru.

Sglefren fôr gyffredin ym Mae Ceredigion



Graham Eaton

*Mae angen fwy o wybodaeth arnom ynglŷn â thynged byd natur yng Nghymru.*

**Cynhyrchwyd Rhestrau Coch yr IUCN ar gyfer Cymru o blanhigion blodeuol<sup>3</sup>, cennau<sup>4</sup>, mwsoglau a llysiâu'r afu<sup>5</sup>. Dangosir y canlyniadau yn y tabl isod.**

**Mae mwy nag un o bob chwe rhywogaeth o blanhigion mewn perygl yng Nghymru.**

Grŵp	Nifer o rywogaethau			% mewn perygl
	Diflanedig	Mewn perygl <sup>A</sup>	Cyfanswm	
Planhigion blodeuol	38	256	1,467	17
Cennau	22	204	1,290	16
Mwsoglau a llysiâu'r afu	26	146	850	18

A: Rhywogaethau a ddynodwyd fel rhai Mewn Perygl Enbyd, Mewn Perygl neu Fregus

Mae amryw o'r setiau data mawr a ddefnyddid ym mhrif adroddiad *Sefyllfa Byd Natur* hefyd yn darparu asesiadau sy'n benodol i wlad. Roedd tueddiadau poblogaeth penodol i Gymru, yn cwmpasu cyfnod o 50 mlynedd, ar gael ar gyfer planhigion blodeuol<sup>6</sup>, rhai adar<sup>7,8,9</sup>, a gloynnod byw<sup>10</sup>, ac fe'u defnyddiwyd ar gyfer llunio'r penawdau (chwith). Defnyddiwyd yr un rheolau i ddyrannu'r rhywogaethau i'r pedwar prif gategori tueddiad fel yn y prif adroddiad *Sefyllfa Byd Natur*. Gwelir y rheolau yma, yn ogystal â manylion am y setiau data a'r dulliau o ddadansoddi a ddefnyddiwyd, yn yr adran ddulliau yn y prif adroddiad.



# Ffermdir



Andy Hay

Golygfa o ffermdir Cymru

**D**efnyddir y rhan fwyaf o dir Cymru ar gyfer amaethyddiaeth: rheolir dros 70% o arwynebedd y tir ar gyfer rhyw fath o amaethyddiaeth; y dull mwyaf cyffredin yw porfa barhaol ar gyfer cynhyrchu llaeth a da byw<sup>11</sup>. Wrth anwybyddu'r ucheldir a amaethir, a chanolbwyntio ar ffermdir wedi ei amgáu yng nghymoedd ac ardaloedd o iseldir Cymru, mae'r cynefin hwn yn parhau i gynnwys cyfran uchel o'r hyn a ystyrir yn "gefn gwlad" Cymru.

Yng Nghymru, fel mewn manau eraill o'r DU, credir mai newidiadau mewn ymarferion ffermio, yn enwedig colli ffermio cymysg a'r newid o dir âr i borfa barhaol, sy'n bennaf gyfrifol am brinhad ym myd natur. Wrth ymateb i hyn, mae llawer o ffermwyr a thirfeddianwyr, yn aml gyda chymorth y llywodraeth ac elusennau cadwraeth, wedi buddsoddi llawer o ymdrech wrth wella'r tirlun a amaethir, drwy gyfrwng cynlluniau amaeth-amgylcheddol a mecanweithiau eraill.

Fodd bynnag, mae diffygion yn y ffordd y lluniwyd rhai o'r cynlluniau yma wedi golygu nad ydyn nhw'n canolbwyntio digon ar anghenion bywyd gwyllt ac,

yn drist iawn, mae'r ymdrechion yma wedi methu i raddau helaeth ag arafu'r colledion parhaol o ran rhywogaethau a chynefinoedd.

Mae adar sy'n nythu ar gynefinoedd a amaethir wedi diflannu'n gyflym. Dengys canlyniadau cynlluniau monitro tymor hir bod adar ffermdir, er gwaethaf cynnydd yn nifer rhai rhywogaethau, ar y cyfan wedi prinhau'n sylweddol ac nad oes modd dod o hyd iddyn nhw mewn cymaint o ardaloedd Cymru erbyn hyn nag ar unrhyw adeg yn ystod y ddau ddegawd diwethaf<sup>2</sup>. Mae rhai, fel y durtur a bras yr yd, mwy neu lai wedi diflannu o Gymru<sup>12</sup>.

Mae blodau gwyllt, yn enwedig blodau tir âr fel y gludlys amryliw a bloddy-ymenyn yr yd, yn parhau i brinhau ac erbyn hyn mae eu dosbarthiad yn fwy cyfyng nag yn ystod unrhyw gyfnod arall yn y degawdau diwethaf<sup>6</sup>. O ganlyniad i golledion o ran blodau gwyllt mae llai o ffynonellau o neithdar a phail i'w cael yng nghefn gwlad, ac mae hyn yn fygythiad difrifol i bryfed sy'n peillio fel gwenyn, pryfetach a gwyfynod.



David Slater (NHFA/Photoshot)

Gludlys amryliw

*Mae adar sy'n nythu ar gynefinoedd a amaethir wedi diflannu gyflym: mae rhai, fel y durtur, mwy neu lai wedi diflannu'n llwyr o Gymru.*

# Coedlannau

**E**r bod coedlannau'n gorchuddio 14% o arwynebedd Cymru (304,000 hectar)<sup>13</sup>, coedwig gonifferaidd anfrodorol yw 43% ohonyn nhw; dim ond 38% sy'n goedlan lydanddail a dim ond 4% o hwn sy'n goedwig frodorol gymysg<sup>14</sup>. Fodd bynnag, o fewn yr arwynebedd tir weddol fach yma, ceir amrywiaeth ryfeddol oherwydd y ddaear a'r tirluniau amrywiol, lleoliad daearyddol unigryw a dylanwad y prif dywydd o'r Atlantig. Er enghraifft, mae 26,000 hectar o goedlan dderw'r ucheldir<sup>1,15,16</sup> yng Nghymru, sef 40% o gyfanswm y DU o'r cynefin hwn sy'n bwysig yn fyd-eang.

O fewn coedlannau, mae gan wahanol rywogaethau amrywiaeth o wahanol anghenion. Mae sawl rhywogaeth yn dibynnu ar amodau a mathau o reolaeth neilltuol er mwyn goroesi, yn cynnwys prysgwyddo ar gylchdro, pori priodol gan wartheg a defaid, a llenyrch mewn coedlannau. Mae rhywogaethau eraill, fel ystlumod y goedlan, yn dibynnu ar goedlan aeddfed, gydag is-haen wedi datblygu'n dda, coed hynafol a phren marw digonol. Fe all cysgodi a chystadleuaeth gan rywogaethau ymledol anfrodorol, megis rhododendron, olygu llai o amrywiaeth o ran planhigion a ffwng, ac fe all hyn effeithio ar strwythur coedlannau<sup>17</sup>. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd â llai o bren marw ar gael, yn golygu bod llai o safleoedd bwydo, nythu a gaeafgyngu i famaliaid, adar ac infertebratau.

Mae planhigion y goedlan, megis clychlys ymledol a'r galdrist gulddail, a chennau llysiâu'r ysgyfaint yn parhau i brinhau os nad oes rheolaeth coedlannau priodol ar waith ac oherwydd effeithiau llygredd nitrogen a sylffwr deuocsid yn yr atmosffer<sup>18,19</sup>. Mae'r lefel o nitrogen a ddyddodir yn dibynnu ar gwmp glaw a faint o nitrogen sydd yn yr atmosffer. Gan mai hinsawdd wleib sydd gan Gymru ac oherwydd bod llawer o gynefinoedd pwysig yn agos at ffynonellau nitrogen atmosfferig, mae lefelau "cefnidir" o nitrogen yn uchel yn aml ac fe all yr effeithiau lleol fod yn niferus.

Mae amlder a dosbarthiad rhywogaethau o adar y goedlan yn ymddangos drwyddo draw fel pe baent yn sefydlog; fodd bynnag, mae rhai rhywogaethau'n prinhaus. Er enghraifft, mae telor y coed, rhywogaeth coedlannau Gorllewin yr Atlantig, wedi prinhaus'n gyflym dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae ystod o rywogaethau eraill, fel y gnozell fraith leiaf, titw'r wern a thitw'r helyg, hefyd yn parhau i brinhau<sup>7,20</sup>.

Er mwyn adfer bioamrywiaeth coedlannau Cymru, mae arnom angen ailgyflwyno ystod o ymarferion rheolaeth, yn ogystal ag ardaloedd lle na fydd ymyrraeth. Bydd hyn yn creu coedlannau cymhleth o ran eu strwythur, gydag amrywiaeth o



Danny Green

## Y glöyn byw'r fritheg berlog fach

gynefinoedd a llystyfiant a fydd yn ateb anghenion y bywyd gwyllt lleol. Mae parhad rheolaeth tymor hir fel rhan o'r tirlun ehangach hefyd yn hanfodol.

Dylai plannu rhywogaethau brodorol mewn coedlannau newydd fod yn flaenoriaeth mewn lleoliadau lle byddai hyn yn cynyddu arwynebedd ac amrywiaeth cynefinoedd coedlan a chreu cyswllt rhwng coedlannau sydd ar hyn o bryd wedi eu hynysu, cyn belled nad yw hyn yn peryglu bioamrywiaeth frodorol cynefinoedd agored.

Mae angen i ni hefyd fynd i'r afael â materion oddi allan i gwr y goedwig, megis lleihau llygredd nitrogen atmosfferig a dŵr ffo llawn maetholynnau.

*Saif 40% o goedlan dderw ucheldir y DU, cynefin sy'n bwysig yn fyd-eang, yng Nghymru*



Jodie Randall

Coedlan dderw



## Astudiaeth achos

**Ffridd: cynefin nodweddiadol Cymru**

*Clytwaith o gynefinoedd afreolaidd ac amrywiol ar derfyn ffermdir a amgaewyd yn hanesyddol ac ucheldir heb ei amgáu yw ffridd, parth yng Nghymru nad oes llawer yn guybod amdano ond sy'n bwysig yn ecolegol. Enw arall ar y ffridd yw coedcae. Fe all hefyd gynnwys arwynebedd ar fryncynau a llethrau serth o fewn caeau amgaeedig.*

*Mae cynefin y ffridd yn hynod oherwydd ei amrywiaeth o gymunedau o lystyfiant a nodweddion o ran strwythur, ac mae'n darparu adnoddau ar gyfer llawer o rywogaethau, yn cynnwys cydran uchel o rywogaethau gwarchoddedig a rhai â blaenoriaeth fel y gwyfyn y gliradain Cymreig. Mae hefyd yn darparu cyswllt rhwng yr iseldir a'r ucheldir, ac yn galluogi i boblogaethau mwyfuy darniog rhywogaethau fel llygod pengrwn y dŵr a gwiberod symud mewn ymateb i newidiadau mewn hinsawdd a rheolaeth tir.*

**Ucheldir**

Saif ucheldir Cymru, rhanbarth mwyaf deheuol prif ranbarthau ucheldir Prydain, ar gwr gorllewinol Ewrop. Mae diffiniad "ucheldir" yn amrywio, ond yn gyffredinol, mae ucheldir yn gorchuddio dros 40% o arwynebedd tir Cymru<sup>15</sup>, ac mae'r rhan fwyaf yn cael ei amaethu mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, mae hefyd ddarnau mawr o Gymru, ar ystod o wahanol uchder, a ystyrir yn "ffermdir wedi ei amgáu", sydd hefyd yn ucheldir o ran ansawdd tir a chymeriad tirlun.

Mae ucheldir Cymru a'i gyrion yn gartref i rai mathau o'n bywyd gwyllt hoff ac sydd mewn perygl, yn ogystal â chymunedau o lystyfiant sy'n bwysig nid yn unig oherwydd iechyd ecolegol cynefinoedd yr ucheldir ond hefyd oherwydd yr agwedd ddiwylliannol sy'n golygu bod ucheldir Cymru mor arbennig.

Ni cheir hyd i rai o'r rhywogaethau hyn, fel brwynddail y mynydd a'r gwyfyn o'r enw ton Gwynedd, yn unlle arall yn y DU. Mae llawer hefyd ar gwr de-orllewinol eu dosbarthiad yn y DU (ac yn Ewrop mewn rhai achosion), fel y cwtiad aur, sydd wedi prnhau o fwy na 83% yng Nghymru yn y degawdau diwethaf<sup>21</sup>.

Mae tirluniau ucheldir Cymru yn bwysig nid yn unig am eu bywyd gwyllt a'u harddwch, ond ar gyfer amaethu, coedwigaeth, rheolaeth dŵr, cyflenwad ynni a hamdden hefyd. Ar hyn o bryd, annaturiol a syml yw llawer o ucheldiroedd Cymru o ran ecoleg oherwydd bod eu bioamrywiaeth wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i hanes hir o bori, llosgi a choedwigo amhriodol, ynghyd â draenio a llygredd atmosfferig.

Yn ddiweddar, mae pobl wedi troi eu cefnau ar ucheldir Cymru ac mae'r diffyg rheolaeth yn fygythiad newydd i'r bywyd gwyllt sy'n byw yma. Mae ymarferion rheolaeth traddodiadol a oedd ar un pryd yn cynnal cynefinoedd amrywiol yn diflannu o'r tir a hebddyn nhw bydd bywyd gwyllt, yn ogystal â ffermdir a defnydd tir arall, yn dioddef.

Fodd bynnag, mae enghreifftiau'n bodoli sy'n dangos sut mae tynged bywyd gwyllt yr ucheldir wedi ei weddnewid. Yn wahanol i weddill y DU, mae poblogaeth y boda tinwyn yn cynyddu ar ucheldir gogledd Cymru<sup>12</sup>, ac mae'r rugiar ddu'n ymateb yn dda i gadwraeth ac amaethyddiaeth wedi eu targedu a rheolaeth anifeiliaid hela. Fodd bynnag, mae eu dosbarthiad wedi parhau i grebachu heb reolaeth o'r fath<sup>22</sup>.



## Astudiaeth achos

**Y fritheg frown**

*Y fritheg frown yw'r glöyn byw sy'n prnhau gyflymaf yn y DU. Yn dilyn crebachiad o 81%<sup>23</sup> yn ei ddosbarthiad yng Nghymru, dim ond 17 o oedolion oedd ar ôl yng Nghymru ym 1999, yng Nghwm Alun, ar gwr gorllewinol Bro Morgannwg. Fodd bynnag, diolch i reolaeth effeithiol a chynllunio tymor hir gan bartneriaeth gadwraeth arloesol, roedd y nifer o oedolion wedi codi i 588 erbyn 2011<sup>24</sup>.*

*O ganlyniad i'r gwaith hwn cafwyd cynnydd hefyd mewn nifer o rywogaethau eraill yn cynnwys y fritheg berlog fach, tegeirian coch y gwanwyn a'r pryf-wenyn smotiog. Yn galonogol hefyd, cofnodwyd y pryf lleidr ffug-bicwnen mewn manau a reolwyd am y tro cyntaf mewn 100 mlynedd.*

**Cwm Ystradllyn, Porthmadog**

# Rhostir y iseldir


**N**odweddir rhostir yr iseldir gan ystod o gorlwyni, yn cynnwys grug ac eithin, yn ogystal â rhywogaethau fel crafanc-y-frân dridarn, pelenllys gronnog a thegeirian llydanwyrdd bach. Ynghyd ag infertebratau, mae'r cymunedau yma o blanhigion wrth wraidd iechyd rhostir yr iseldir, ac yn cynnal bywyd gwyllt arall, yn cynnwys adar Cymreig eiconig fel y frân goesgoch.

Saif llawer o'r cynefin hwn o amgylch glannau trawiadol Cymru, mewn mannau megis Sir Benfro, Ynys Môn, Penrhyn Gŵyr a Phenrhyn Llŷn, ac mae'n ffurfio tirlun hoff a ddefnyddir gan lawer. Er bod oddeutu 13% o rhostir yr iseldir a rhostir arforol yn cael ei warchod, mae'r cynefin pwysig hwn a'r rhywogaethau a gynhelir ganddo mewn perygl. O amgylch y DU, mae'r cynefin ei hun wedi prinhau o hyd at 80% dros y ddwy ganrif ddiwethaf; ac mae'r rhannau hynny sydd ar ôl wedi eu darnio ac o dan fgythiad.

David Tipling



**Brân goesgoch**



**Rhostir arforol**

Geoff Simpson

**Mae rhostir yr iseldir yn gynefin pwysig ac mae'r rhywogaethau a gynhelir ganddo mewn perygl.**

## Cyfeirnodau

- 1: Carey PD, et al. (2008) *Arolwg Cefn Gulad: Canlyniadau'r DU* 2007. CEH, Rhydychen.
- 2: Ystadegau Cymru (2012) *Cyflwr yr Amgylchedd*, 2012. Ystadegau Cymru, Caerdydd.
- 3: Dines T (2008) *A Vascular Plant Red Data List for Wales*. Plantlife, Salisbury.
- 4: Woods RG (2010) *A Lichen Red Data List for Wales*. Plantlife, Salisbury.
- 5: Bosanquet S a Dines T (2011) *A Bryophyte Red Data List for Wales*. Plantlife, Salisbury.
- 6: Preston CD, et al. (2003) *The Changing Distribution of the Flora of the United Kingdom: Technical Report*. CEH, Swydd Gaergrawnt.
- 7: Risely K, et al. (2012) *Arolwg Adar Nythu 2011*. Adroddiad Ymchwil y BTO 624. BTO, Thetford.
- 8: Holt C, et al. (2012) *Waterbirds in the UK 2010/11: The Wetland Bird Survey*. BTO, Thetford.
- 9: JNCC (2010) *Seabird population trends and causes of change*. JNCC, Peterborough.
- 10: Biological Records Centre (2012) *The UK Butterfly Monitoring Scheme 2011: Summary of changes*. Biological Records Centre, Wallingford.
- 11: Ystadegau Cymru (2012) *Ffeithiau a ffigurau amaethu: Cymru*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.
- 12: Johnstone IG, et al. (2011) *Sefyllfa Adar yng Nghymru 2011*. RSPB Cymru, Caerdydd.
- 13: Comisiwn Coedwigaeth (2008) *National Forest Inventory Map 2008* (yn seiliedig ar ffotograffau o'r awyr o 2006). Comisiwn Coedwigaeth, Caerdydd.
- 14: Dines TD (2012). *The Global Strategy for Plant Conservation in Wales*. Plantlife, Salisbury.
- 15: Jones B (2007) *Fframwaith yr Ucheldir CCGC*. CCGC, Caerdydd.
- 16: Rothero GP (2005) *Botanical Journal of Scotland*. 57: 135–140.
- 17: Long D a Williams J (2007) *Rhododendron ponticum: impact on lower plants and fungi communities on the west coast of Scotland*. Plantlife, Salisbury.
- 18: Stevens CJ, et al. (2011) *Collation of evidence of nitrogen impacts on vegetation in relation to UK biodiversity objectives*. JNCC Report 447. JNCC: Peterborough.
- 19: Comisiwn Coedwigaeth (2011) *Acidity and nutrient nitrogen critical loads and exceedance for woodland habitats*. Comisiwn Coedwigaeth, Caerdydd.
- 20: Dyda J, et al. (2009) *Rheolaeth Coedlannau ar gyfer adar: arweiniad i reoli coedlannau ar gyfer adar â blaenoriaeth yng Nghymru*. Yr RSPB, Sandy a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, Aberystwyth.
- 21: Johnstone I, et al. (2008) *Adar Cymru* 5: 300–310.
- 22: Grant MC, et al. (2009) *Folia Zoology* 58: 1–13.
- 23: Fox R, et al. (2007) *The state of Britain's butterflies 2007*. Butterfly Conservation and the CEH, Wareham.
- 24: Fox R, et al. (2011) *The State of the UK's Butterflies 2011*. Butterfly Conservation and the CEH, Wareham.

**Dylid cyfeirio at yr adroddiad hwn fel:**  
Burns F, Eaton MA, Gregory RD, et al. (2013) *Sefyllfa Byd Natur: Cymru*. Yn adroddiad *Sefyllfa Byd Natur*. Partneriaeth Sefyllfa Byd Natur.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o adroddiad mwy, sydd ar gael ar [www.rspb.org.uk/stateofnature](http://www.rspb.org.uk/stateofnature)

Os na nodir yn wahanol, daw pob ffotograff o RSPB Images ([rspb-images.com](http://rspb-images.com)).







Paratowyd adroddiad *Sefyllfa Byd Natur* mewn cydweithrediad rhwng y 25 o gyrrff cadwraeth ac ymchwil yn y DU a restrir isod:



 sefyllfa byd natur  
[www.rspb.org.uk/stateofnature](http://www.rspb.org.uk/stateofnature)

